Hysbysiad Preifatrwydd (Dysgwyr/Ymgeiswyr)

Rhagymadrodd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi cael ei ddylunio i'ch helpu i ddeall sut mae Coleg Gwent. ("Y Coleg","ni",) yn casglu a phrosesu'r wybodaeth a rannwch gyda ni.

Gyda'i gilydd, daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data (2018) i gymryd lle Deddf Diogelu Data 1998 ar 25 Mai [illegible]
personol yn cynnwys:

- i gyflawni contract sydd gennym gyda chi
- pan fo gennym rwymedigaeth gyfreithiol
- lle bo er budd cyhoeddus
- lle rydych wedi rhoi eich cydsyniad, er bod hyn hefyd yn angenrheidiol o dan nifer cyfyngedig o amgylchiadau

Mae darpariaethau ychwanegol yn y ddeddfwriaeth sy'n ein galluogi i brosesu data personol sy'n cael ei adnabod fel data personol categori arbennig. Mae hyn yn cynnwys eich tarddiad hiliol neu ethnig, eich agweddau gwleidyddol, eich credoau crefyddol neu athronyddol, eich aelodaeth undeb llafur, eich data genetig neu fiometrig, eich iechyd, eich bywyd rhywiol chyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw euogfarnau troseddol a throseddau.

Rheswm dros brosesu

Pa mor hir rydym ni'n cadw eich data?

Mae ein trefn cadw cyflawn ar gael ar gais.

Y priff ddyddiadau cadw yw:

MATH O GOFNOD	HYD CADW
Ffeil Wybodaeth Dysgwr	Blwyddyn gyfredol+ 6 blynedd
Ffurflenni cais/cofrestru dysgwr	Blwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Ffurflenni archebu hyfforddiant proffesiynol	Blwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Ffurflenni cydsynio ffotograffiaeth	Blwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Ffurflenni astudiaeth achos / cydsyniad geirda	Blwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Dogfennau gwybodaeth ariannol	Blwyddyn ariannol gyfredol + 6 blynedd
Manylion cofnod dysgwr	Blwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Ffeiliau gwaith cwrs dysgwr	Blwyddyn gyfredol + 3 blynedd
Dogfennaeth cwrs dysgwr/asesu modiwl	Blwyddyn gyfredol + 3 blynedd
Gwybodaeth asesiad ALN dysgwr	Blwyddyn gyfredol + 7 blynedd
Cofrestrau dros dro Gwaith papur disgyblaethol dysgwr	Blwyddyn gyfredol + 6 blynedd

Ein Rhestr Trydydd Parti

Mae'r Grŵp yn bartner gyda nifer o drydydd partïon y rhannwn ddata gyda hwy. Nid ydym yn defnyddio unrhyw drydydd parti wedi ei leoli y tu allan i'r UE ac mae'r holl storio data hefyd yn cael ei ddal o fewn yr UE.

Categori rhannu	Pam y rhannwn
Gwasanaethau Cynfyfyrwyr	I gysylltu dysgwyr o'r gorffennol â gilydd a rhoi gwybod iddynt am weithgareddau'r coleg
Archwilwyr	I brofi a monitro gweithgareddau'r grŵp i sicrhau cydymffurfio
Corff Dyfarnu	I weinyddu gwaith papur sy'n berthynol i arholiadau ac asesiadau
Casglu dyled	I gasglu ffïoedd sy'n sefyll ar ran y grŵp
Sefydliadau llywodraeth a chysylltiedig	Anfonwn ddata at sefydliadau llywodraeth er mwyn ennill cyllid, i alluogi addysgu a dysgu, i gefnogi dysgwyr, i gydymffurfio â gofynion fel taliadau treth ein staff
Yswiriant	I sicrhau bod y coleg wedi'i yswirio yn addas i'w wneud yn amgylchedd diogel
Sefydliadau sy'n darparu digwyddiadau a chyfoethogi	I wella profiadau addysgol dysgwyr
Darparwr gwasanaeth - marchnata	I ddarparu newyddion a digwyddiadau o'r grŵp i unigolion
Darparwr Gwasanaeth – digwyddiadau marchogol	I alluogi unigolion i logi digwyddiadau marchogol yn arena'r coleg
Darparwr Gwasanaeth – nwyddau metal	I alluogi staff a dysgwyr i gael gwasanaeth effeithlon wrth ddefnyddio cyfleusterau'r grŵp
Darparwr gwasanaeth – cefnogaeth TG	I alluogi staff a dysgwyr i gael gwasanaeth effeithlon wrth ddefnyddio cyfleusterau'r grŵp
Darparwr Gwasanaeth - meddalwedd	I alluogi staff a dysgwyr i gael gwasanaeth effeithlon wrth ddefnyddio cyfleusterau'r grŵp

Clwb chwaraeon/Undeb	

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych nifer o hawliau o dan y GDPR.

Mae hyn yn cynnwys yr hawl i geisio cywiro neu ddileu eich data personol ac i wrthwynebu prosesu eich data personol.

Mae gennych hawl hefyd i gopi o'r data sy'n cael ei ddal amdanoch chi, ac i hygludedd data.

Lle rydym yn prosesu eich data, yn seiliedig ar eich cydsyniad, Mae gennych yr hawl hefyd i dynnu eich cydsyniad yn ôl i rannu data gyda ni ar unrhyw bwynt. Mae gan y Grŵp hawl i gadw data a broseswn trwy seiliau cyfreithiol eraill i fodloni ein rhwymedigaethau statudol a chytundebol a amlinellir uchod.

Gellir gwneud ceisiadau o'r natur hyn mewn nifer o ffyrdd:

1. Cysylltu â Swyddog Diogelu Data wrth e-bostio DPO@coleggwent.ac.uk
2. Wrth gwblhau ffurflen ymholiad diogelu data ar y wefan.
3. Wrth gwblhau cais mynediad at bwnc sydd ar gael ar dudalen preifatrwydd y wefan a'i bostio at:

   Y Swyddog Diogelu Data
   Coleg Gwent
   Campws Crosskeys
   Ffordd Risga
   Crosskeys
   Caerffili
   NP11 7ZA

Os ydych chi'n teimlo nad ydym wedi delio â'ch data yn unol â hysbysiad preifatrwydd hwn neu yn achos unrhyw gŵyn arall, gallwch anfon eich pryderon ymlaen at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (The ICO).

Newidiadau i'r ffordd y proseswn eich data

Gall yr hysbysiad preifatrwydd hwn gael ei ddiweddaru o dro i dro.